# Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgr
2025 - 2030

# Anti-Fraud and Anti-Corruption Strategy
2025 - 2030



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## CYNNWYS

Rhagarweiniad ........ 3

Nodau ac Amcanion ........ 5

Cwmpas ........ 5

Diffiniadau ........ 6

Llywodraethu a Rolau ........ 7

Cydnabyddiaeth ........ 9

Atal a Rheolaethau ........ 10

Mynd ar drywydd Twyll ........ 11

Rhoi Gwybod am Dwyll ac Arferion Llwgr ........ 12

Diogelu'r Cyngor a'i Breswylwyr ........ 13

# Rhagair

Fel Cyngor, rhoddir arian ac adnoddau cyhoeddus yn ein gofal i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl a chymunedau Sir Gaerfyrddin. Y gofal hwnnw yw sylfaen popeth a wnawn. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn diogelu'r adnoddau hynny rhag risg twyll, arferion llwgr, a mathau eraill o droseddau ariannol.

Nid yw twyll yn erbyn y sector cyhoeddus yn drosedd lle nad oes neb yn dioddef. Mae pob punt a gollir oherwydd gweithgarwch anonest yn bunt yn llai i wasanaethau hanfodol – o ofalu am ein preswylwyr mwyaf agored i niwed i gynnal cymunedau diogel a chynaliadwy. Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif, ac mae'r Strategaeth hon yn nodi ein hymrwymiad clir i atal, canfod ac ymateb i bob math o dwyll.

Byddwn yn parhau i adeiladu systemau a rheolaethau cryf sy'n ei gwneud hi'n anodd i dwyll ddigwydd; hybu diwylliant o uniondeb ac atebolrwydd ymhlith ein staff, partneriaid a chyflenwyr; a sicrhau yr ymchwilir yn brydlon ac yn deg i bob amheuaeth o dwyll, a bod camau pendant yn cael eu cymryd lle canfyddir camymddygiad.

Mae'r Strategaeth hon hefyd yn cadarnhau ein hymrwymiad i gydweithredu – gyda chynghorau eraill, asiantaethau, Heddlu Dyfed-Powys, a'r Fenter Twyll Genedlaethol – i rannu gwybodaeth, cryfhau ein hamddiffynfeydd, ac aros ar y blaen i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg.

Rydyn ni eisiau bod yn glir: nid oes lle i dwyll yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Trwy wyliadwriaeth, llywodraethu da, ac ymroddiad parhaus ein gweithwyr a'n partneriaid, byddwn yn diogelu arian cyhoeddus ac yn cynnal hyder y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Wendy Walters
Y Prif Weithredwr

Chris Moore
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151

Y Cynghorydd Alun Lenny
Aelod Cabinet dros Adnoddau

# 01
# Rhagarweiniad

Cyngor Sir Caerfyrddin yw un o'r awdurdodau unedol mwyaf yng Nghymru, a'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal gyda dros 8,000 o weithwyr. Mae'r Cyngor yn berchennog ar asedau sylweddol, yn gweithredu amrywiaeth o systemau ac yn ymdrin pob dydd ag amrywiaeth fawr o gontractwyr a chwsmeriaid. Mae ystod a natur amrywiol y gwasanaethau a gweithgareddau, ynghyd â maint ei weithrediadau a'i gyllidebau, yn anochel yn creu perygl twyll ac arferion llwgr i Gyngor Sir Caerfyrddin, o ffynonellau mewnol ac allanol fel ei gilydd.

Twyll yw'r drosedd fwyaf cyffredin yn y DU o hyd. Nid yw twyll yn drosedd lle nad oes neb yn dioddef, a gall effeithio arnom ni i gyd.
Y gost ariannol – mewn termau ariannol, mae twyll yn costio biliynau o bunnoedd i'r wlad bob blwyddyn. Mae hefyd yn effeithio ar faint o arian sydd gennym i'w wario ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Collodd pobl yn y DU £1.1 biliwn oherwydd twyll yn 2024, yn ôl grŵp y diwydiant bancio, UK Finance.
Y gost ddynol – mae yna gostau eraill nad ydynt mor amlwg o ganlyniad i rai mathau o dwyll. Er enghraifft, un canlyniad i Dwyll Tenantiaethau Tai Cyngor yw bod llai o leoedd ar gael gan amddifadu teuluoedd a phobl agored i niwed sydd ar y rhestr aros.

Mae llywodraethu corfforaethol da yn mynnu bod yn rhaid i'r awdurdod ddangos yn glir ei ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll ac arferion llwgr a bydd yn ymdrin yn gyfartal â chyflawnwyr o'r tu mewn ac o'r tu allan i'r Cyngor.


Diwylliant o fod yn agored sydd gan y Cyngor erioed ac mae'r gwerthoedd craidd, sef Uniondeb, Cymryd Cyfrifoldeb a Rhagoriaeth, yn cefnogi hyn. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i'r safonau moesegol a moesol uchaf ac yn benderfynol mai diwylliant o onestrwydd, uniondeb a thryloywder fydd gan y sefydliad. Yn sylfaenol i'r gwerthoedd craidd hyn mae ei ymrwymiad i frwydro yn erbyn twyll ac arferion llwgr.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy, sy'n golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Strategaeth hon yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau ein bod yn dilyn saith egwyddor llywodraethu da a nodwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), trwy ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth cyllid cyhoeddus gref. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio, er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol.

Mae llawer iawn o graffu allanol ar faterion y Cyngor gan amrywiaeth o gyrff gan gynnwys:
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Archwilio Cymru
- Adrannau'r Llywodraeth Ganolog a Chomisiynau Seneddol
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Llywodraeth Cymru

Mae cysylltiad agos rhwng y Strategaeth hon a pholisïau cyfredol yn yr awdurdod sy'n darparu canllawiau i'r staff ac Aelodau ar atal a rhoi gwybod am dwyll ac arferion llwgr. Mae'r rhain yn cynnwys Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, Rheolau Gweithdrefnau Ariannol ar gyfer Ysgolion, Polisi Datgelu Camarfer, Codau Ymddygiad a Safonau'r awdurdod, a Codau Ymddygiad Swyddogion ac Aelodau.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei ymateb i dwyll yn cyd-fynd ag arferion gorau y strategaeth *Fighting Fraud and Corruption Locally* (FFCL), sy'n amlinellu pum piler allweddol i gryfhau gallu llywodraeth leol o ran atal twyll. Mae'r pileri hyn yn cefnogi dull cydgysylltiedig, strategol a rhagweithiol o reoli risgiau twyll.




*Fighting Fraud and Corruption Locally*

* *At ddibenion y Strategaeth hon, bydd y term 'gweithredwr' yn golygu'r Prif Weithredwr, y Tîm Rheoli Corfforaethol, a Chabinet Cyngor Sir Caerfyrddin.*

Mae'r pileri hyn yn cefnogi'n uniongyrchol amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 trwy hyrwyddo uniondeb, tryloywder, atebolrwydd a chynaliadwyedd mewn gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau. Yn cyd-fynd â'r pum piler allweddol mae chwe thema gyffredinol i gynorthwyo'r sefydliad a sicrhau bod ein hymateb atal twyll yn gynhwysfawr ac yn effeithiol:

### Diwylliant
Creu a chynnal diwylliant lle mae twyll ac arferion llwgr yn annerbyniol. Mae hyn yn golygu meithrin amgylchedd lle mae ymddygiad moesegol yn cael ei annog a lle cymerir camau i atal camymddygiad.

### Galluogrwydd
Gwella ein gallu i ganfod ac ymchwilio i dwyll, a'i atal. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi staff, gwella dadansoddi data, a defnyddio technoleg i aros ar y blaen i weithgareddau twyllodrus.

### Gallu
Bod â gallu o fewn y sefydliad i frwydro yn erbyn twyll yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys dyrannu adnoddau, staffio'n briodol, a sicrhau bod ymdrechion atal twyll yn cael adnoddau digonol.

### Cymhwysedd
Datblygu a chynnal arbenigedd mewn canfod ac ymchwilio i dwyll, a'i atal; sicrhau bod y sgiliau a'r safonau iawn ar waith.

### Cyfathrebu
Codi ymwybyddiaeth, atal twyll rhag digwydd, rhannu gwybodaeth a dathlu llwyddiant.

**Cydweithio**
Cydweithio ar draws ffiniau mewnol ac allanol gyda chydweithwyr ac asiantaethau eraill, rhannu adnoddau, gwybodaeth, sgiliau a dysgu.

# 02
# Nodau ac Amcanion

Nodau ac amcanion y Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgr yw:

- Gwarchod adnoddau gwerthfawr y Cyngor trwy sicrhau na chânt eu colli trwy dwyll ac arferion llwgr ond y cânt eu defnyddio i wella gwasanaethau i breswylwyr Sir Gaerfyrddin, trwy weithredu'r mesurau parhaus i leihau twyll yn llwyddiannus.
- Creu diwylliant atal twyll sy'n cyd-fynd â pholisi dim goddefgarwch y Cyngor o ran twyll, arferion llwgr a llwgrwobrwyo, sy'n ceisio cynyddu gwytnwch y Cyngor yn erbyn twyll ac arferion llwgr trwy godi ymwybyddiaeth o dwyll.
- Creu amgylchedd sy'n ei gwneud yn bosibl rhoi gwybod am unrhyw amheuon dilys am weithgarwch twyllodrus. Fodd bynnag, ni fyddwn yn goddef honiadau maleisus neu flinderus neu honiadau sydd wedi'u hysgogi gan elw personol; os caiff y rhain eu profi, mae'n bosibl y byddwn yn cymryd camau disgyblu neu gamau cyfreithiol; a
- Cydweithio â'n partneriaid a chyrff ymchwilio eraill i gryfhau ein trefniadau i atal twyll ac arferion llwgr a'u gwella'n barhaus.

# 03
# Cwmpas

Mae'r Strategaeth hon yn berthnasol i'r canlynol:

- Holl weithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin, waeth beth fo'r rôl neu'r dynodiad (gan gynnwys gwirfoddolwyr a gweithwyr asiantaeth);
- Holl adrannau ac ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin;
- Pob Cynghorydd ac Aelod Cyfetholedig;
- Staff ac aelodau pwyllgorau sefydliadau gwirfoddol a ariennir gan y Cyngor;
- Partneriaid Cyngor Sir Caerfyrddin;
- Partneriaid allanol;
- Cyflenwyr, contractwyr ac ymgynghorwyr y Cyngor;
- Cwsmeriaid.

# 04
# Diffiniadau

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin agwedd dim goddefgarwch at bob math o dwyll, arferion llwgr a dwyn, oddi mewn i'r Cyngor ac o ffynonellau allanol.  Rydym yn cydnabod y gall twyll:

- Danseilio'r safonau gwasanaeth cyhoeddus mae'r Cyngor yn ceisio eu cyrraedd;
- Lleihau'r adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael i breswylwyr Sir Gaerfyrddin; ac
- Arwain at ganlyniadau o bwys sy'n lleihau hyder y cyhoedd yn y Cyngor.

### Beth yw Twyll?

Twyll yw gweithred neu anweithred droseddol a fwriedir er elw personol neu y bwriedir iddi beri colled i berson neu sefydliad arall. (Deddf Twyll 2006). Mae hyn yn cynnwys:

- **Ymhonni'n anwir gan wybod hynny** – lle bo unigolyn yn anonest a chan wybod hynny yn gwneud ymhoniad sy'n anwir neu'n gamarweiniol.

- **Peidio â datgelu gwybodaeth** – lle bo unigolyn, ar gam ac yn anonest, yn peidio â datgelu gwybodaeth i berson arall pan fo dyletswydd gyfreithiol arno i'w datgelu, neu lle bo'r wybodaeth o fath yr ymddiriedir ynddo i'w datgelu, neu y disgwylid yn rhesymol iddo ei datgelu.

- **Camddefnyddio safle** – Lle bo unigolyn y rhoddwyd safle iddo, y disgwylir iddo yn y safle hwnnw ddiogelu buddiannau ariannol person arall, yn anonest ac yn ddirgel yn camddefnyddio'r safle o ymddiriedaeth hwnnw yn ddiarwybod i'r person arall.

Gall twyll gael ei gyflawni yn erbyn unigolion, busnesau neu sefydliadau eraill gan gynnwys cynghorau. Gall twyll gael ei gyflawni gan bobl y tu mewn neu'r tu allan i'r Cyngor, naill ai gan weithredu ar eu pen eu hunain neu fel rhan o grŵp.

### Beth yw Arferion Llwgr?

Ystyrir mai arferion llwgr yw:
Cynnig, rhoi, ceisio neu dderbyn unrhyw gymhelliad neu wobr a fyddai'n dylanwadu ar y gweithredoedd a gyflawnir gan y corff, ei aelodau neu ei swyddogion.
Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn disgrifio trosedd llwgrwobrwyo ac yn nodi pedair prif drosedd:

- **Llwgrwobrwyo person arall** – Mae person yn cyflawni trosedd trwy gynnig, addo neu roi mantais ariannol neu arall i berson arall, yn uniongyrchol neu trwy gyfryngwr: gan fwriadu i'r fantais honno gymell person i gyflawni swyddogaeth yn amhriodol neu i wobrwyo person am wneud hynny (pa un a ydyw yr un person y cynigir y fantais iddo ai peidio) neu gan wybod neu gredu mai cyflawni swyddogaeth yn amhriodol fyddai derbyn y fantais ynddo ei hun.

- **Cael ei lwgrwobrwyo** - Mae person yn cyflawni'r drosedd hon trwy geisio, cytuno i gael neu dderbyn mantais ariannol neu arall, yn uniongyrchol neu trwy drydydd parti, er ei fudd ei hun neu er budd rhywun arall: mae'r person hwnnw'n bwriadu y bydd swyddogaeth yn cael ei chyflawni'n amhriodol o ganlyniad, neu mae swyddogaeth yn cael ei chyflawni'n amhriodol (boed fel gwobr, wrth ragweld neu o ganlyniad i geisio, cytuno neu dderbyn y fantais).  Mae'n bosibl mai cyflawni swyddogaeth yn amhriodol yw ceisio, cytuno neu dderbyn y fantais, ynddo ei hun.

- **Llwgrwobrwyo Ffigwr Cyhoeddus Tramor** – Bydd y drosedd hon yn cael ei chyflawni os yw person yn cynnig neu'n rhoi mantais ariannol neu arall i swyddog cyhoeddus tramor gyda'r bwriad o ddylanwadu ar y swyddog cyhoeddus tramor a chael neu gadw busnes, lle nad oedd cyfraith ysgrifenedig yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cyhoeddus tramor gael ei ddylanwadu yn y fath fodd; a

- **Peidio ag atal llwgrwobrwyo** – Mae 'atebolrwydd caeth' ar gwmni am unrhyw lwgrwobr a delir gan berson sy'n cyflawni gwasanaethau ar ei ran, oni fo'r sefydliad yn profi bod gweithdrefnau gwrth lwgrwobrwyo digonol ar waith.

Y gosb fwyaf am y troseddau yw 10 mlynedd o garchar a/neu ddirwy ddigyfyngiad. Am beidio ag atal trosedd, y ddirwy yn unig sy'n berthnasol.

### Beth yw Dwyn?

Mae person yn euog o ddwyn os yw'n meddiannu'n anonest eiddo sy'n perthyn i rywun arall gyda'r bwriad o amddifadu'r llall ohono'n barhaol.

Nid yw'n berthnasol a feddiannir yr eiddo gyda golwg ar elw, neu er budd y lleidr ei hun.

*Deddf Dwyn 1968*

### Beth yw Gwyngalchu Arian?

Gwyngalchu arian yw'r broses mae troseddwyr yn ei defnyddio i geisio 'ailgylchu' yr enillion o'u gweithgareddau troseddol er mwyn celu eu tarddiad a'u perchnogaeth ac ar yr un pryd cadw'r gallu i ddefnyddio'r arian.
Ar y Cyngor mae baich adnabod a rhoi gwybod am weithredoedd gwyngalchu arian. Mae'n bosibl i unrhyw wasanaeth sy'n cael arian oddi wrth berson neu gorff allanol fod yn agored i weithgarwch gwyngalchu arian. Mae'r angen i fod yn wyliadwrus yn hanfodol a dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol am unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb trafodyn a gofyn iddo am gyngor.
Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldebau o dan Reoliadau Gwyngalchu Arian 2017 a Deddf Enillion Troseddau 2002.

# 05
# Llywodraethu a Rolau

GOVERN

Diwylliant o fod yn agored sydd gan y Cyngor erioed ac mae'r gwerthoedd craidd, sef **Uniondeb, Cymryd Cyfrifoldeb** a **Rhagoriaeth**, yn cefnogi hyn. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i'r safonau moesegol a moesol uchaf ac yn benderfynol mai diwylliant o onestrwydd, uniondeb a thryloywder fydd gan y sefydliad. Yn sylfaenol i'r gwerthoedd craidd hyn mae ei ymrwymiad i frwydro yn erbyn twyll ac arferion llwgr.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i bolisi **dim goddefgarwch** mewn perthynas â thwyll ac arferion llwgr. Nod yr awdurdod yw darparu gwasanaethau cyhoeddus ardderchog ac mae angen iddo sicrhau priodoldeb ac atebolrwydd ym mhopeth. Mae hawl gan y cyhoedd i ddisgwyl y caiff arian

cyhoeddus ei wario'n briodol, yn dryloyw ac ar wasanaethau hanfodol mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae Prif Weithredwr a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor yn hyrwyddwyr ymroddedig gwaith atal twyll. Maent yn rhoi cefnogaeth gref a gweladwy i agwedd dim goddefgarwch y Cyngor tuag at dwyll ac arferion llwgr, gan sicrhau bod prosesau atal a chanfod twyll yn cael eu hymwreiddio ar bob lefel o'r sefydliad.

Er bod gan yr holl randdeiliaid ran i'w chwarae wrth leihau risg twyll, mae uwch-reolwyr ac aelodau etholedig mewn sefyllfa ddelfrydol i ddylanwadu ar naws foesegol y sefydliad a chwarae rhan hanfodol wrth feithrin diwylliant o safonau moesegol uchel ac uniondeb.

Mae gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol da yn amddiffyniad cryf rhag twyll, arferion llwgr a llwgrwobrwyo.

Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol wrth oruchwylio agwedd y Cyngor tuag at dwyll, ei system rheolaethau a rheoli risg, a'i wytnwch ehangach yn erbyn afreoleidd-dra ariannol yn gyffredinol.

Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn ymgymryd â rhaglen waith sicrwydd sy'n seiliedig ar risg bob blwyddyn a ddatblygir gyda mewnbwn gan y rheolwyr ac y cytunir arni gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r gwaith sicrwydd hwn yn cynnwys adolygiad annibynnol o systemau a gweithdrefnau, gan gynnwys adolygiad o brosesau rheoli risg (twyll a mathau eraill o risg), lle mae gwendidau systemau yn cael eu dwyn i sylw'r rheolwyr ynghyd ag argymhellion i gryfhau rheolaethau o fewn gweithdrefnau.

Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau allweddol ar gyfer delio â thwyll ac arferion llwgr o fewn y Cyngor fel a ganlyn:

### Prif Weithredwr

- Sicrhau ymrwymiad ledled y Cyngor i bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â thwyll.
- Awdurdodi ymchwiliadau proffil uchel neu werth uchel ac ymatebion i'r cyfryngau.

### Swyddog Adran 151 (Prif Swyddog Cyllid)

- Sicrhau stiwardiaeth briodol o ran arian cyhoeddus.
- Goruchwylio a chymeradwyo prosesau ymchwilio i dwyll a sicrhau adnoddau.

### Swyddog Monitro

- Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol trwy gydol ymchwiliadau.
- Darparu cyngor ar oblygiadau disgyblu a rheoleiddio.

### Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol

- Goruchwylio ymchwiliadau i dwyll a amheuir.
- Cynnal asesiad rhagarweiniol o'r holl adroddiadau ynghylch twyll a amheuir.
- Cyfathrebu â'r Heddlu lle bo'n briodol.

Prif Archwilydd / Swyddog Ymchwilio i Dwyll [Refeniw a Budd-daliadau]

- Ar y cyd â Phennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol, ymgymryd ag asesiad rhagarweiniol o'r holl adroddiadau ynghylch twyll a amheuir.
- Arwain a chydgysylltu ymchwiliadau i dwyll a amheuir.
- Cadw cofnodion o'r holl honiadau o dwyll a chanlyniadau ymchwiliadau.

Cyfarwyddwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Llinell

- Rhoi gwybod am unrhyw amheuon yn syth.
- Cefnogi ymchwilwyr trwy roi mynediad at staff, cofnodion a systemau.

Swyddog Ymchwilio

- Cynnal ymchwiliadau yn ddiduedd, gan sicrhau cyfrinachedd a thegwch gweithdrefnol.
- Diogelu, cadw a dadansoddi tystiolaeth yn unol ag Adran 5.

Pob gweithiwr

- Bod yn effro i arwyddion o dwyll.
- Rhoi gwybod am amheuon yn brydlon trwy'r sianeli priodol.

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Goruchwylio agwedd y Cyngor tuag at dwyll, ei system rheolaethau a rheoli risg, a'i wytnwch ehangach yn erbyn afreoleidd-dra ariannol yn gyffredinol.
- Derbyn yr Adroddiad Atal Twyll ac Arferion Llwgr Blynyddol.

# 06
# Cydnabyddiaeth

ACKNOWLEDGE

Y gwasanaeth refeniw a chydymffurfiaeth ariannol, sy'n rhan o Adran y Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â thwyll ac arferion llwgr o fewn yr awdurdod  Rhennir goruchwyliaeth rhwng yr Adran Archwilio Mewnol ac uned arbenigol o fewn y tîm refeniw, sy'n rheoli pob math o dwyll budd-daliadau. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y ddau dîm yn cael eu staffio gan arbenigwyr atal twyll achrededig sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol, a'n bod yn parhau i sicrhau bod gennym allu a chymhwysedd priodol i ganfod, atal ac ymateb yn effeithiol i dwyll ac arferion llwgr ar draws pob rhan o'r sefydliad.

Mae llywodraethu corfforaethol da yn mynnu bod yn rhaid i’r awdurdod ddangos yn glir ei fod wedi ymrwymo i fynd i’r afael â thwyll ac arferion llwgr ac y bydd yn ymdrin yn gyfartal â chyflawnwyr o’r tu mewn (aelodau a gweithwyr) ac o’r tu allan i’r Cyngor.  Byddwn yn dangos hyn trwy adroddiad ar swyddogaethau a gweithgareddau atal twyll yr awdurdod a gyflwynir i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn.

Rydym yn gwella ein gallu i ganfod ac atal twyll trwy ddefnyddio dulliau dadansoddi data uwch, gwella hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff, a chryfhau ein rheolaethau mewnol a'n fframweithiau llywodraethu.

Trwy ddefnyddio technoleg, asesiadau risg rhagweithiol, a chydweithredu ar draws adrannau a sefydliadau partner, rydym yn datblygu dull mwy gwybodus, ystwyth a gwydn o nodi risgiau twyll sy'n dod i'r amlwg yn gynnar. Mae hyn yn sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu diogelu, bod ein prosesau yn parhau i fod yn dryloyw, a bod ymddiriedaeth y cyhoedd yn ein sefydliad yn cael ei chynnal er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## 07
## Atal a Rheolaethau

Mae gwaith rhagweithiol wedi'i gynllunio i godi ymwybyddiaeth o risgiau twyll ac arferion llwgr o fewn y Cyngor, a'u canlyniadau. Mae datblygu diwylliant cryf o atal twyll ac arferion llwgr o fewn y sefydliad yn sail i'r holl waith arall a wneir ac mae cysylltiad agos rhwng hynny a chreu effaith ataliol gref.

Trwy gyfathrebu rheolaidd, hyfforddiant, a gorfodi gweladwy, rydym yn atgyfnerthu'r neges yr ymdrinnir â thwyll yn bendant a bod gan bob gweithiwr ran i'w chwarae wrth ddiogelu adnoddau cyhoeddus.

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl staff ac aelodau etholedig yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i adnabod, atal a rhoi gwybod am dwyll. Bydd hyfforddiant wedi'i dargedu yn cael ei gyflwyno trwy gyfuniad o fodiwl e-ddysgu gorfodol, sesiynau gloywi rheolaidd, a gweithdai arbenigol wedi'u teilwra i swyddi amrywiol. Bydd deunyddiau hyfforddi yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu risgiau twyll sy'n dod i'r amlwg, newidiadau deddfwriaethol, a chanllawiau arfer gorau, gan sicrhau bod ymwybyddiaeth a gwyliadwriaeth yn cael eu cynnal ar draws y sefydliad.

Mae cysylltiad agos rhwng atal twyll a pholisïau diogelwch TG yr awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â seiberddiogelwch, gan fod llawer o weithgareddau twyllodrus bellach yn manteisio ar systemau digidol a gwendidau ar-lein. Trwy integreiddio ymwybyddiaeth o dwyll ag arferion seiberddiogelwch cadarn, mae'r sefydliad yn cryfhau ei allu i ganfod, atal ac ymateb i fygythiadau. Mae hyn yn cynnwys diogelu data personol ac ariannol, gorfodi rheolaethau mynediad diogel, hybu ymwybyddiaeth staff o risgiau gwe-rwydo a pheirianneg gymdeithasol, a chynnal gwytnwch yn erbyn twyll a alluogir gan elfennau seiber.

Bydd tudalen fewnrwyd bwrpasol ar Dwyll ac Arferion Llwgr yn parhau i gael ei chynnal, sydd wedi'i chynllunio i roi gwybodaeth i staff am effeithiau twyll ac, yn bwysig, sut i roi gwybod am unrhyw amheuon o dwyll neu arferion llwgr.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi negeseuon i staff yn rheolaidd trwy e-bost wythnosol y tîm Marchnata a'r Cyfryngau ac arbedwyr sgrin ar liniaduron. Bydd y negeseuon hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i staff ar bynciau fel amddiffyn eu hunain rhag twyll ac adnabod risgiau twyll posibl yn y gweithle. Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r Strategaeth hon ymhlith staff ac aelodau.

Egwyddor allweddol wrth atal twyll a/neu arferion llwgr yw sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol yn gallu gwrthsefyll twyll. Bwriad y broses hon yw lleihau'r cyfle i droseddau economaidd ddigwydd, trwy nodi a mynd i'r afael â risgiau neu fylchau posibl, a gweithredu mesurau rheoli i gynyddu eu gwytnwch yn erbyn gweithgareddau o'r fath. Nid oes y fath beth â pholisi neu broses sy'n atal twyll yn gyfan gwbl, fodd bynnag, mae ymrwymiad i atal twyll yn lleihau'r risg a'r potensial y bydd polisi neu weithdrefn yn cael ei gamddehongli/chamddehongli, neu y bydd diffyg eglurder yn cael ei ddefnyddio fel amddiffyniad. Mae gan yr awdurdod reolau clir ar waith i staff eu dilyn, yn enwedig y Rheolau

Gweithdrefnau Ariannol, a'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gywir ac yn parhau i ddarparu rheolau cadarn a diamwys i staff eu dilyn.

Ymgynghorir â'r tîm Archwilio Mewnol yn rheolaidd i asesu cynllun ac effeithiolrwydd rheolaethau sydd wedi'u hymwreiddio mewn systemau a phrosesau allweddol. Mae'r ymgysylltiad hwn yn cefnogi ymrwymiad y sefydliad i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn a lleihau risg twyll a chamgymeriad.

Mae’r Adran Archwilio Mewnol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ganfod twyll, llwgrwobrwyo ac arferion llwgr.  Mae cynllun yr Adran Archwilio Mewnol yn cynnwys adolygiadau o reolaethau systemau gan gynnwys rheolaethau ariannol a phrofion penodol am dwyll ac arferion llwgr. Mae’r Adran Archwilio Mewnol yn cyflawni ymarferion paru data helaeth i ganfod twyll posibl gan gymharu setiau data rhwng ac o fewn systemau er mwyn canfod anghysondebau a allai ddangos gweithgarwch twyllodrus.

Yn ogystal â gwaith archwilio mewnol, mae nifer fawr o systemau a rheolaethau rheoli ar waith i atal twyll ac arferion llwgr ond yn aml gwyliadwriaeth gweithwyr ac aelodau o’r cyhoedd sy’n cynorthwyo â chanfod y rhain. Bwriad Polisi Datgelu Camarfer y Cyngor yw annog a galluogi gweithwyr i godi eu pryderon.

Mae'r Swyddog Ymchwilio i Dwyll yn chwarae rhan ganolog wrth ddiogelu uniondeb y gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau trwy arwain y gwaith o atal, canfod ac ymchwilio i dwyll. Gan gydweithio'n agos ag adrannau mewnol, asiantaethau allanol, a phartneriaid gorfodi'r gyfraith, mae'r Swyddog Ymchwilio i Dwyll yn sicrhau bod yr holl honiadau o dwyll budd-daliadau yn cael eu hasesu'n drylwyr ac y gweithredir yn briodol yn eu cylch.

Bydd yr awdurdod yn parhau i fod yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol sy’n cael ei chydgysylltu gan Swyddfa'r Cabinet (a gyflawnir pob dwy flynedd) lle caiff setiau data ar ystod o ddarpariaeth gwasanaethau eu cymharu â data awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn canfod eithriadau a allai gynnwys gweithgarwch twyllodrus.

Lle bo hynny'n bosibl, bydd achosion ac erlyniadau llwyddiannus a gyflawnir gan y Cyngor yn cael eu hyrwyddo er mwyn cael effaith ataliol, gan atal unrhyw un rhag ceisio cyflawni twyll yn erbyn yr awdurdod.

# 08
# Mynd ar drywydd Twyll




Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i greu diwylliant lle nad yw twyll yn cael ei oddef a lle mae gan weithwyr hyder y bydd pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif. Rydym yn annog staff i roi gwybod am dwyll a amheuir ac yn darparu sianeli clir a chyfrinachol i wneud hynny. Ymchwilir yn drylwyr i bob adroddiad a chymerir camau priodol ym mhob achos.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn cydweithredu ag eraill i ddod o hyd i atebion cynaliadwy ar y cyd.  Mae’r awdurdod yn cydweithredu fwyfwy ag asiantaethau a chyrff eraill i ddarparu gwasanaethau effeithiol; mae hyn yn cynnwys cydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Heddlu.  Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith gyda Heddlu Dyfed-Powys sy'n pwysleisio ein bwriad a'n hymrwymiad i frwydro yn erbyn twyll ac arferion llwgr yn erbyn yr awdurdod.  Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd ar waith rhwng y Cyngor a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Ymchwilir i bob honiad yn gyfrinachol ac yn broffesiynol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fynd ar drywydd yr holl sancsiynau sydd ar gael mewn achosion profedig o dwyll:

- Disgyblu – hyd at ddiswyddo a chan gynnwys hynny.
- Rheoleiddiol – rhoi gwybod i gyrff proffesiynol lle bo'n berthnasol.
- Sifil – ceisio iawndal trwy'r llysoedd.
- Troseddol – atgyfeirio at yr heddlu ac erlyn.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i adennill colledion, a bydd camau adennill yn cael eu cymryd ym mhob achos, waeth beth fo'r gwerth.

Yn dilyn pob ymchwiliad, bydd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn comisiynu adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd. Bydd argymhellion ynghylch gwelliannau i reolaethau yn cael eu cyflwyno i'r maes gwasanaeth perthnasol.

# 09
# Rhoi Gwybod am Dwyll ac Arferion Llwgr

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau y gellir rhoi gwybod am bob amheuaeth o dwyll ac arferion llwgr yn hawdd, yn gyfrinachol a heb ofni dial. Anogir staff, aelodau etholedig, preswylwyr a phartneriaid i godi pryderon trwy sianeli adrodd sefydledig. Ymdrinnir â phob adroddiad yn brydlon ac yn sensitif ac ymchwilir iddynt yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. Lle bo hynny'n briodol, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â chyrff allanol perthnasol i gefnogi gwaith gorfodi a diogelu arian cyhoeddus.

## SUT I ROI GWYBOD AM DWYLL

| TROSEDDAU TWYLL SY'N YMWNEUD Â BUDD-DALIADAU TAI, Y DRETH GYNGOR NEU FATHODYNNAU GLAS: | POB TROSEDD TWYLL ARALL: |
|---|---|
| Cysylltwch â'r<br>SWYDDOG YMCHWILIO I DWYLL<br>fraud@sirgar.gov.uk | Cysylltwch â'r<br>PENNAETH REFENIW A CHYDYMFFURFIAETH ARIANNOL<br>TwyllCorfforaethol@sirgar.gov.uk |

**Bydd pob achos o dwyll neu arferion llwgr a amheuir yn cael ei adrodd i Brif Weithredwr yr awdurdod.**

### Twyll Budd-dal Tai

Gellir rhoi gwybod am honiadau o dwyll ar-lein: fraud@sirgar.gov.uk.
Gallwch hefyd roi gwybod am dwyll budd-daliadau trwy ffonio'r Llinell Frys Twyll Budd-daliadau Genedlaethol. Mae'r Llinell Frys ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm ar 0800 854440. Mae Llinell Frys Gymraeg benodol ar gael hefyd ar 0800 6783722.

### Twyll Gostyngiadau'r Dreth Gyngor/Twyll Disgownt ac Eithriad i'r Dreth Gyngor

Gellir rhoi gwybod am honiadau o dwyll ar-lein: fraud@sirgar.gov.uk.

### Twyll neu Gamddefnydd o'r Bathodyn Glas


Mae'n drosedd camddefnyddio bathodyn glas a gall arwain at erlyniad, dirwy o hyd at £1000, cymryd y bathodyn a hefyd unrhyw gosb ychwanegol am y drosedd parcio gysylltiedig. Os ydych yn credu bod rhywun yn camddefnyddio Bathodyn Glas, gallwch roi gwybod am hynny ar-lein: fraud@sirgar.gov.uk.

### Mathau eraill o Dwyll a gyflawnir yn erbyn Cyngor Sir Caerfyrddin

Dylid rhoi gwybod i TwyllCorfforaethol@sirgar.gov.uk am honiadau o dwyll yn erbyn Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin Bolisi Datgelu Camarfer a reolir gan y Swyddog Monitro. Mae'r polisi hwn yn galluogi gweithwyr i godi pryderon a hefyd i ddiogelu eu buddiannau yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

# 10
# Diogelu'r Cyngor a'i Breswylwyr




Gan gydnabod y niwed y gall twyll ei achosi i'r gymuned, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i amddiffyn ei hun a'i breswylwyr rhag gweithgarwch twyllodrus. Byddwn yn cyflawni hyn trwy gynnal systemau cadarn i atal, canfod ac ymchwilio, wedi'u hategu gan bolisïau a gweithdrefnau clir. Trwy weithio mewn modd rhagweithiol gyda phartneriaid, rhannu gwybodaeth a mabwysiadu arferion gorau, byddwn yn cryfhau ein gwytnwch yn erbyn twyll ac yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu. Mae ein dull yn rhoi pwyslais cyfartal ar ddiogelu adnoddau'r sefydliad a llesiant preswylwyr, gan gryfhau ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaethau a ddarparwn.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymfalchïo mewn gosod a chynnal safonau uchel a diwylliant o fod yn agored, gyda gwerthoedd craidd **Uniondeb, Cymryd Cyfrifoldeb a Rhagoriaeth**.
Mae Cod Ymddygiad y Cyngor, sy'n seiliedig ar egwyddorion CIPFA/SOLACE, yn ymrwymo'r Awdurdod a'i staff i weithredu gyda chywirdeb, gonestrwydd ac atebolrwydd, gan sicrhau bod twyll yn cael ei atal, ei ganfod a'i drin yn y ffordd gywir. Yn yr un modd, mae Cod Ymddygiad yr Aelodau yn ymrwymo pob Cynghorydd ac Aelod cyfetholedig i weithredu'n briodol, gan ddangos y safonau ymddygiad uchaf ac atgyfnerthu ymddiriedaeth y cyhoedd yn llywodraethiant y Cyngor.